Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU a gynhaliwyd trwy drefniant hybrid
**dydd Mercher, 13 Medi 2023**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Rhodri Davies (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Gethin Davies, Meirion Davies, Ifan Davies, Rhodri Evans, Hugh R M Hughes, Ceris Jones, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd, Sian Maehrlein, Chris James, Mark Strong a Carl Worrall

Hefyd yn Bresennol:- Y Cynghorydd Bryan Davies

**Swyddogion yn Bresennol**: Mr Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol– Economi ac Adfywio, Mrs Catrin Newbold – Rheolwr Gwasanaeth (Rheoli Datblygu), Mr Sam Pugh- Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu, Mrs Sian Holder- Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu – De, Mr Jonathan Eirug- Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu – Gogledd, Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd, Mrs Patricia Armstrong, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol, Mrs Dana Jones, Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Safonau

(10:00yb-11:55yp)

**1 Materion Personol**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod.

**2 Ymddiheuriadau**

Cafwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Marc Davies a Raymond Evans am eu anallu i fynychu.

**3 Datgelu buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu**

Datganodd y Cynghorydd Bryan Davies fudd personol ac sy'n rhagfarnu yng Nghais A220368 a datgan ei fod yn dymuno cael ei gofnodi bod y cais wedi'i ohirio i'r Pwyllgor, gan ei fod wedi datgan diddordeb yn y cais yn ychwanegol iddo fod yn ddatblygiad mawr.

Datganodd y Cynghorydd Rhodri Evans fudd personol ac sy'n rhagfarnu yng Nghais A230425.

Datganodd y Cynghorydd Ceris Jones fudd personol ac sy'n rhagfarnu yng Nghais A230425.

Datganodd Mr Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol -Economi ac Adfywio fudd personol ac sy'n rhagfarnu yng Nghais A230435.

Datganodd Mrs Dana Jones, Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Safonau fudd personol ac sy'n rhagfarnu yng Nghais A220368 a chymerwyd cofnodion yr eitem hon gan Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd.

**4** **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 09 Awst 2023**

PENDERFYNWYD cadarnhau bod Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Awst 2023 yn gywir.

**Materion yn codi**

Dim.

**5** **Ystyried ceisiadau cynllunio a ohiriwyd mewn Cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor**

Ystyriwyd Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio am y ceisiadau cynllunio canlynol, a ystyriwyd yn ystod cyfarfod blaenorol ac yr oedd gofyn i'r Pwyllgor eu hystyried ymhellach:-

A210757 Adeilad saernïo blwch ceffylau arfaethedig, i gynnwys gosod gwaith mynediad i gerbydau a thrin pecynnau, Tir cyfagos B4338, o'r gyffordd â C1279 a chyffordd C1060, Llanybydder

I **OHIRIO** penderfyniad y cais am fis i'r ymgeisydd gyflwyno prawf dilyniannol mwy trylwyr i gefnogi'r cais.

---

A220638 Cam 4 - Codi 8 annedd i gynnwys 2 annedd fforddiadwy, Cae John, Cross Inn, Llanon

I **OHIRIO** penderfyniad y cais i'r swyddogion drafod gyda'r ymgeisydd/asiant os byddent yn cytuno i gynyddu nifer yr aneddau fforddiadwy yn y datblygiad i 50%.

---

A230399 Estyniad llawr 1af, 23 Bro Henllys, Felinfach, Llanbedr Pont Steffan

I WRTHOD y cais gan and oedd y datblygiad arfaethedig drwy ei ddyluniad, ei raddfa a'i ymddangosiad yn dangos ystyriaeth briodol o wahaniaethau cymhedrol yr ardal, tynnu oddi wrth olygfa'r stryd gan achosi ymyrraeth weledol sylweddol negyddol i gymeriad tirwedd yr ardal, yn groes i bolisiau DM06 A DM17 y Cynllun Datblygu Lleol.

---

**6** **Ceisiadau Statudol, Llywodraeth Leol, Hysbysebion a Datblygu**

Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ynghylch Ceisiadau cynllunio datblygu, hysbysebu; statudol a'r awdurdod lleol:-

Anerchodd Ms Anna Rose (Gwrthwynebydd) and Mr Geraint John (Asiant) y Pwyllgor yn unol â'r weithrefn Weithredol ar gyfer Aelodau'r Cyhoedd sy'n annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu

A220368 Datblygiad preswyl gyda mynediad cysylltiedig, tirlunio a gwaith ategol. Tir i'r gogledd o Aylestone, Llanarth

**CYMERADWYO'**r cais yn unol âg amodau a chytundeb S.106.

---

A230425 Defnyddio newid dosbarth o B1 (swyddfeydd) i ddefnydd D1 (Canolfan Iechyd) ar gyfer ardaloedd lleol ar gcynllun llawr Canolfan Rheidol Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion

**CYMERADWYO'**r cais yn unol ag amodau.

---

**7 Ceisiadau Cynllunio y deliwyd â hwy o dan awdurdod dirprwyedig**

PENDERFYNWYD nodi rhestr y ceisiadau cynllunio y bu i Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ymdrin â nhw

**8 Apeliadau**

CYTUNWYD nodi and oedd apeliadau wedi dod i law

**9 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor**

Dim.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar Dydd Mercher, 11 Hydref 2023**

**Cadeirydd:**________________

**Dyddiad:**________________